# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Hysbysu'r cyhoedd am sgoriau hylendid bwyd*

## 10 Hyrwyddo sgoriau hylendid bwyd

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch hyrwyddo sgôr hylendid bwyd sefydliad busnes bwyd—

- (a) gan weithredwr y sefydliad;
- (b) gan berson sy'n gweithredu ar ran y gweithredwr.

(2) Caiff y rheoliadau, er enghraifft, osod dyletswyddau ar weithredwr mewn perthynas â'r canlynol—

- (a) rhoi cyhoeddusrwydd i'r sgôr yn electronig;
- (b) rhoi cyhoeddusrwydd i'r sgôr mewn deunydd sy'n hyrwyddo'r bwyd a ddarperir gan y sefydliad.

(3) Caiff y rheoliadau hefyd—

- (a) creu trosedd;
- (b) gosod cosb (gan gynnwys cosb benodedig);
- (c) gwneud darpariaeth ynghylch gorfodi;
- (d) gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol fathau o sefydliad.

(4) Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at sgôr hylendid bwyd sefydliad yn cynnwys cyfeiriad at sgôr a ddarperir yn rhinwedd adran 12 (ailsgoriadau hylendid bwyd).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 10 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(f)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 10.